

## **SEFYDLU SWPER YR ARGLWYDD.**

**Emyn:** 492 *'Mae'r gwaed a redodd ar y groes.'*

**Darlleniad:** *Luc 22:7-20.*

**Gwedi:** O Dad Nefol, cadw ni'n ddiogel tra bod yr haint yma yn ymledu trwy ein gwlad. Mae llawer wedi gwrando ac yn hunan ynysu ond cofiwn heddiw am y rhai sy'n gorfod gweithio, y meddygon, nyrsys, gwasanaeth ambiwlans, heddlu, er mwyn achub bywydau. Amen.

Neges: Er yr argyfwng sydd yn ein byd, ni ddylwn anghofio am y Pasg. Medd Iesu, *"Mor daear y bûm yn dyheu am gael bwyta gwledd y Pasg hwn gyda chwi cyn imi ddiodef!"* Roedd y Pasg yn bwysig i Iesu.

**A.Y PASG:** Sefydlwyd y Pasg i gofio am waredigaeth Duw i bobl Israel o galedi'r Aifft. Er i Moses ymbil droeon ar Pharo i ollwng y bobl yn rhydd, ni wnaeth ildio, hyd yn oed ar ôl naw pla. Y degfed pla fuasai marwolaeth y mab cyntafanedig yn yr holl Aifft. I bobl Israel roedd gwaredigaeth i'w gael, ond iddynt wrando ar Dduw. Y galw oedd i aberthu oen heb nam, gan osod y gwaed o amgylch y drws. Buasai'r oen yn ddirprwy (substitute) yn lle'r mab hynaf. Iesu yw Oen Duw, aberth yn ein lle!

**B. TREFNU'R WLEDD:** *'Atebodd Iesu, "Wedi i chwi fynd i mewn i'r ddinas fe ddaw dyn i'ch cyfarfod, yn cario stenaidd o dŵr. Dilynwch ef i'r tŷ yr a i mewn iddo,"* 10. Nid hap a damwain oedd y digwyddiad hwn - roedd Crist yn rheoli. *'Y mae'r Athro yn gofyn, "Ble mae f'ystafell, lle yr wyf i fwyta gwledd y Pasg gyda'm disgyblion?"* 11. Mor annwyl oedd Iesu tuag at ei ddisgyblion, er eu holl methiannau! *'Fe ddengys ef i chwi oruwchystafell fawr wedi ei threnu.'* 12. Nid cyd-ddigwyddiad ydoedd bod yr ystafell yn barod – roedd Crist yn trefnu!

**C. Y SWPER: Y Bara.** *'Cymerodd fara, ac wedi diolch fe'i torrodd a'i roi iddynt gan ddweud, "Hwn yw fy nghorff, sy'n cael ei roi er eich mwyn chwi: gwnewch hyn er cof amdanaf."* Arwyddocad? Fe dorwyd y bara i'w rannu ag eraill, ond cofiwn i gorff Iesu gael 'ei dorri' er ein mwyn! Y Gwin. *"Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i, sy'n cael ei dywallt er eich mwyn chwi."* Trwy waed Crist sefydlwyd 'cyfamod newydd.' Perthynas â Duw nid trwy'r gyfraith ond trwy ffydd yn Iesu. Tywalltodd Iesu ei waed *'er maddeuant pechodau,'* er mwyn ein cymodi â'r Tad. Sut allwn anghofio hyn? **Y Pasg:** a. Gwaredigaeth yr Oen; b. Trefn Duw; c. Aberth a chymod Crist. *'Dyma gariad ... Pwy all beidio a chofio amdano?'*